

Gwers 4: Cestyll Consentrig

Nod y Wers: Adnabod nodweddion Cestyll Consentrig a thrafod pam eu bod yn effeithiol



Tasg 1: Disgrifiwch y lluniau o'r cestyll consentrig uchod gan roi'r geirfa yma yn y frawddegau isod: **waliau trwchus, ffos, uchel, ymosod**


- Yn y cestyll consentrig mae yna.....
- Roedd yna nifer o dyrrau (towers) ar safle'r cestyll.
- Roedd yna o amgylch rhai cestyll
- Roedd hi'n anodd iawn i ar y cestyll

Yn y tabl, nodwch nodweddion (features) tebyg a gwahanol gestyll mwnt a beili, cestyll cerrig a chestyll Consentrig. Gosodwch y brawddegau yma yn y golofn berthnasol:

- Adeiladwyd waliau i amddiffyn (defend) cestyll
- Roedd y cestyll yn gallu pydru (rot)
- Cafodd waliau cestyll mwnt a beili eu gwneud o bren ond cafodd cestyll cerrig a chestyll consentrig wedi eu gwneud o gerrig.
- Roedd yna ffos (moat) o gwmpas nifer o gestyll
- Roeddent yn hawdd i losgi (burn)

TEBYG (<i>similar</i>)	GWAHANOL (<i>different</i>)

Yn dilyn rhyfel y Croesgadau, a ddigwyddodd rhwng 11eg a 13eg ganrif datblygwyd cestyll gwahanol. Daeth milwyr o'r rhyfel hwnnw (yn y dwyrain canol) a syniadau i Brydain sef y cestyll consentrig.



Ystyr y gair consentrig yw un cylch y tu mewn i gylch arall, roedd hyn yn cyfeirio at waliau'r castell hwn. Roedd y gorthwr (prif adeilad) yng nghanol y castell ac wedi'i amgylchynu (*surrounded*) gan waliau trwchus iawn ac uchel â thyrau cornel crwn. Y tu allan i hyn roedd y beili allanol â wal trwchus crwn arall ar gyfer amddiffyn (*defend*). Er mwyn rhoi rhagor o amddiffyniad ychwanegwyd ffos fel arfer.

Lefel Efydd: Disgrifiwch beth oedd prif nodweddion (*features*) cestyll consentrig gan orffen y brawddegau isod.

Roedd waliau'r cestyll.....

Roedd y gorthwr..... i roi rhagor o amddiffyniad i'r castell roedd yna.....

Y castell cyntaf ym Mhrydain i gael ei adeiladu yn yr arddull (*style*) hwn oedd Caerffili yn Ne Cymru. Cafodd ei adeiladu gan Gilbert de Clare rhwng 1268 a 1272. Roedd angen castell cryf (*strong*) arno i amddiffyn y tir yr yn y de rhag ymosodiad gan yr arweinydd (*leader*) Cymreig Llywelyn ap Gruffydd. Cymerodd mwy o amser i frenhinoedd Lloegr sefydlu rheolaeth yng Ngogledd Cymru ond sicrhaodd Brenin Edward I hyn ar ol 1283. Gwnaeth hynny drwy adeiladu cyfres o gestyll consentrig enfawr, a oedd bron yn amhosib i ymosod arnynt.

Adeiladwyd cestyll Rhaglan, Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech i gyd gan Edward I i sicrhau ei rym yng Nghymru. Mae Biwmares yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn un o'r cestyll gorau yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Gweithiodd mwy na 2,000 o lafurwyr (*workers*) ar Gastell Biwmares ond o edrych arno heddiw mae'n cael ei ystyried yn aml yn llai trawiadol na chestyll eraill fel castell Harlech - yn gyffredinol oherwydd na chafodd ei gwblhau.

Lefel Arian: Esboniwch pa neges (*message*) oedd Edward I yn ceisio anfon (*send*) i'r Cymry wrth adeiladu'r cestyll gan lenwi'r brawddegau isod gyda'r termau canlynol: **enfawr (massive) gogledd, dychryn (scare), de, adeiladu'r, llym (harsh)**

Roedd Edward I eisiau.....pobl Cymru gan cestyll yma yn y ac yn y Roedd y cestyll yn a phwrpas Edward oedd i reoli'r Cymry yn

Lefel Aur: Yn eich barn chi, a oedd adeiladu cestyll consentrig yn effeithiol wrth reoli'r Cymru?
Pam?

Yn fy marn i, roedd adeiladu'r cestyll yn effeithiol oherwydd.....

.....
.....

Ond, ar y llaw arall, nid oeddent yn effeithiol oherwydd.....

.....
.....

Geirfa

Trwchus	<i>Thick</i>	Arddull	<i>Style</i>
Amddiffyn	<i>Defend</i>	Adeiladu	<i>Build</i>
Rheoli	<i>Control</i>	Llafurwyr	<i>Laborers</i>